

# Sut i:

## ysgrifennu astudiaeth achos da

Gall astudiaethu achos eich helpu chi i ddangos, i arianwyr a darpar roddwyr, y gwahaniaeth y mae eich prosiect wedi'i wneud. Rydyn ni wrth ein bodd gydag astudiaethau achos, mae'n nhw'n dod â storiâu'n fyw ac yn dangos sut y mae sefydliadau ar lawr gwlad yn defnyddio ein harian.


Yn aml, mae pobl yn meddwl y dylen nhw fod yn llawn o ddata ond, mewn gwirionedd, yr hyn ddylen nhw ei wneud yw adrodd y stori o'r gwahaniaeth y mae'r grant wedi'i wneud i'ch buddiolwyr.

Pethau y dylai derbynwyr grant eu hystyried wrth ysgrifennu astudiaethau achos:




### Unigolion

- **Y dechrau:** dechreuwch drwy ddisgrifio eich bywyd cyn i chi ymgeisio am grant. Sut oeddech chi'n teimlo? Beth oedd yn anodd i chi?
- **Y canol:** Meddyliwch tam y darlun mawr. Os ydych chi wedi prynu gliniadur, beth mae technoleg wedi'ch helpu chi i'w wneud? Sut mae wedi helpu eich gyrfa academiaidd?
- **Y diwedd:** Beth ydych chi'n gobeithio ei wneud nawr fod y grant wedi dod i ben? Beth ydych chi'n feddwl fydd yn digwydd yn y dyfodol?




### Sefydliadau

- Think about the themes and intended outcomes of your project whilst writing to help you keep focused.
- Oes yna un buddiolwr neu hanes un teulu sy'n sefyll allan? Rhywun sydd wedi goresgyn anfantais neu wedi llwyddo gyda help y prosiect? Defnyddiwch y stori, bydd yn helpu'r darllenydd i gydymdeimlo. Gallai fod yn un astudiaeth achos hir o unigolyn neu lawer o astudiaethau achos byrrach ynghylch rhai unigolion.
- Cofiwch beidio â defnyddio enw iawn y person os yn fregus.
- **Y dechrau:** rhowch y cyd-destun a gwybodaeth sylfaenol ynghylch y buddiolwr, ac egluro sut oedd pethau cyn cysylltu â'r gwasanaeth.
- **Y Canol:** disgrifiwch y gweithgareddau y mae'r buddiolwr wedi cymryd rhan ynddyn nhw. Cofiwch gynnwys gwybodaeth ynghylch eu cynnydd a'u llwyddiant, yn enwedig ynghylch y canlyniadau y mae'r prosiect yn gobeithio eu cael. Peidiwch â bod ofn cynnwys ffactorau sydd â chynnydd cyfyngedig.
- **Y Diwedd:** gorffennwch drwy grynhoi'r dysgu a'r canlyniadau. Ystyriwch ddyfodol y buddiolwr a beth y mae'n gobeithio ei wneud ar ôl i'r prosiect orffen.
- Defnyddiwch ddyfyniadau i ddod â'r stori'n fyw.



## Prosiectau Cyfalaf / Treftadaeth/ Amgylcheddol

- Ystyriwch y themâu a'r canlyniadau a ddisgwylir gan eich prosiect wrth ysgrifennu. Bydd hyn yn eich helpu i gadw eich rhediad ac yn dangos sut mae eich prosiect wedi effeithio ar eich cymuned / defnyddwyr gwasanaeth.
- Defnyddiwch ddyfyniadau perthnasol gan aelodau o'ch grŵp neu eich cymuned.
- **Y dechrau:** disgrifiwch y gymuned cyn dechrau ar y gwaith. Sut gawsoch chi'r syniad am y prosiect hwn?
- **Y canol:** disgrifiwch y gweithgareddau neu'r gwaith sydd wedi' wneud. Faint o fuddiolwyr oedd yn cymryd rhan? Oedd popeth yn mynd yn esmwyth, neu a oedd yna broblemau'n codi?
- **Y diwedd:** gorffennwch drwy egluro effeithiau'ch prosiect ar eich cymuned. Rhowch grynodedb o'r hyn a ddysgwyd ac o'r canlyniadau, trafodwch unrhyw ffactorau a oedd yn llesteirio cynnydd neu oedd yn golygu fod yn rhaid addasu'r prosiect.



Mae rhagor o awgrymiadau ynghylch ysgrifennu astudiaeth achos da yma.